

Porth Cymhorthydd Personol (CP) - Cwestiynau Cyffredin

Cynnwys

Rwy'n Gymhorthydd Personol yn edrych am gyflogaeth	1
Sut mae'r Porth CP yn gweithio?	1
Pa wybodaeth o fy mhroffil fydd yn weledol i'r cyhoedd?	2
Sut fydd cyflogwr posib yn cysylltu â mi?	2
Rwy'n Gyflogwr yn edrych am Gymhorthydd Personol	2
E-Ddysgu trwy CLICK (wedi ei bweru gan Grey Matter Learning)	2
Sut i ddilyn yr hyfforddiant?	2
Pwy ddylwn gysylltu â hwy os wyf yn cael problemau?	3
Sut wyf yn cyfieithu'r dudalen neu newid maint y ffont.....	3

Rwy'n Gymhorthydd Personol yn edrych am gyflogaeth

Sut mae'r Porth CP yn gweithio?

Cyn belled â'ch bod dros 18, yn byw yn y DU ac â'r hawl i weithio yn y DU, rydych yn gymwys i gofrestru eich proffil ar y Porth CP.

Crëwch eich proffil a llenwi'r holl adrannau. Ar ôl i chi gyflwyno eich proffil, bydd yn cael ei anfon i'r Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol i gael cymeradwyaeth.

Ar ôl i'ch proffil gael ei gymeradwyo, byddwch yn cael e-bost yn cadarnhau hyn a bydd "Fy Nghyfrif" Sir y Fflint yn cael ei greu i chi, os nad oes gennych un yn barod. Bydd y manylion yn yr e-bost.

Bydd eich proffil yn cael ei uwchlwytho i'r rhestr Cymhorthydd Personol a bydd ar gael i Gyflogwyr Taliadau Uniongyrchol i'w weld a'i roi ar restr fer os ydynt yn meddwl eich bod yn addas.

Gallwch ddiweddarau eich proffil trwy eich "Fy Nghyfrif" os yw eich sefyllfa'n newid neu os ydych eisiau ychwanegu unrhyw hyfforddiant neu brofiad ychwanegol. Gallwch hefyd ofyn i gael gwneud eich proffil yn anweithredol os nad ydych bellach yn chwilio am gyflogaeth.



Rydym yn argymhell eich bod yn diweddarau eich proffil gydag unrhyw hyfforddiant a phrofiad. Os nad ydych wedi diweddarau eich proffil mewn 3 mis byddwn yn anfon nodyn i'ch atgoffa. Os yw eich proffil yn parhau i fod yn segur, byddwn yn gwneud eich proffil yn anweithredol.

Gallwch ofyn i'ch manylion gael eu dileu unrhyw bryd.

Pa wybodaeth o fy mhroffil fydd yn weledol i'r cyhoedd?

Bydd yr **HOLL** fanylion ar eich proffil (gan gynnwys eich llun os ydych yn dewis uwchlwytho un) yn weledol i'r cyhoedd **HEBLAW'R**;

- Cyfenw
- Rhif ffôn cartref
- Rhif ffôn symudol
- Cyfeiriad e-bost

Sut fydd cyflogwr posib yn cysylltu â mi?

Os yw eich proffil wedi ei roi ar restr fer gan gyflogwr, yna byddant yn gofyn am eich manylion cyswllt gan y Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol, sicrhewch fod eich manylion cyswllt yn gyfredol.

Rwy'n Gyflogwr yn edrych am Gymhorthydd Personol

Mae hwn yn wasanaeth am ddim i unrhyw un sy'n cael Taliad Uniongyrchol Cyngor Sir y Fflint. Gallwch ddefnyddio'r hidlyddion i gulhau eich chwiliad. Edrychwch ar y proffiliau a phinio unrhyw broffiliau addas i'ch rhestr fer.

Ar ôl i chi benderfynu pwy i'w rhoi ar y rhestr fer, gallwch ofyn am fwy o wybodaeth am y CP a'u gwahodd i gyfweiliad.

Dylech barhau i gysylltu â'r Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol trwy gydol gweddill y broses recriwtio.

E-Ddysgu trwy CLICK (wedi ei bweru gan Grey Matter Learning)

Sut i ddilyn yr hyfforddiant?

Ar ôl i chi gofrestru ar gwrs e-ddysgu, byddwch yn cael e-bost i greu cyfrif.

I fynd i gyfrif sy'n bodoli ewch i <https://greymatterlearning.co.uk/> a dewis sign in, neu fynd i <https://app.greymatterlearning.co.uk/login>

Edrychwch ar eu fideo Getting Started

<https://content.greymatterlearning.co.uk/video+guides/Click+Getting+Started.mp4>

Pwy ddylwn gysylltu â hwy os wyf yn cael problemau?

Os ydych yn cael unrhyw broblemau ewch i'r dudalen gymorth i gysylltu â Grey Matter Learning neu ewch i'r ddesg gymorth <https://greymatterlearning.co.uk/clicksupport/>

Ar ôl i chi fewngofnodi i'ch dangoswrdd dysgwr gallwch fynd i'r ddesg gymorth trwy glicio ar y botwm cymorth



Sut wyf yn cyfieithu'r dudalen neu newid maint y ffont

Ar ôl i chi fewngofnodi i'ch dangoswrdd dysgwr, gallwch weithredu'r bar offer hygyrchedd trwy glicio ar eich enw yn y gornel dde uchaf.

Mae'r bar offer hygyrchedd yn caniatáu i'r dysgu gael ei gyfieithu, ei ddarllen allan yn uchel a gellir newid maint a math y ffont a'r thema lliw.

